**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ken Skates AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1NA

19 Hydref 2016

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

**Cymru Hanesyddol**

Cafodd y Pwyllgor amrywiaeth o ohebiaeth yn mynegi pryder am yr effaith bosibl ar Amgueddfa Cymru yn sgil creu Cymru Hanesyddol.

O ganlyniad i'r pryderon hyn, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Amgueddfa, Mr David Anderson, yn ein cyfarfod ar 12 Hydref. Bydd trawsgrifiad o'r sesiwn ar gael ar dudalennau'r Pwyllgor maes o law.

Mae'r Pwyllgor bellach yn ystyried a ddylai gymryd tystiolaeth bellach ar y mater hwn a faint o dystiolaeth y dylai ei chymryd. Fodd bynnag, cyn gwneud hynny, cytunodd y Pwyllgor mai'r peth gorau fyddai aros i weld eich ymateb i'r llythyr a anfonwyd atoch ar 30 Medi gan Lywydd yr Amgueddfa, Elisabeth Elias. Cytunodd y Pwyllgor y byddai eich atebion i'r naw cwestiwn penodol gan Ms Elias yn ei hysbysu'n well er mwyn gallu penderfynu sut i wneud gwaith pellach ar y mater hwn ar hyn o bryd, neu a oedd am wneud gwaith o'r fath. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech anfon copi o'ch ateb i Ms Elias ataf i er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Hefyd, parthed y cwestiynau gan Ms Elias, byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn gwybod hefyd beth fyddai sefyllfa CADW pe bai ei swyddogaethau masnachol yn cael eu cyfuno â swyddogaethau masnachol Amgueddfa Cymru. Yn benodol, a yw'r opsiwn o ad-drefnu CADW y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Llywodraeth, fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei ystyried?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565

Edrychaf ymlaen at eich ymateb. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mr Anderson er gwybodaeth.

Yn gywir

Bethan Jenkins

**Bethan Jenkins AC**

**Cadeirydd**